Law Commission
Reforming the law

Atebolrwydd corfforaethol

Yn 2010 ymgynghorodd y Comisiwn ar Atebolrwydd Troseddol mewn Cyd-destunau Rheoleiddiol. Gweithredwyd ein prif argymhellion a sefydlodd sail egwyddorol ar gyfer creu atebolrwydd troseddol mewn cyd-destunau rheoleiddiol mewn canllawiau i adrannau o'r Llywodraeth. Oedwyd ar weddill y prosiect a oedd yn ystyried nifer bach o athrawiaethau o atebolrwydd a oedd yn berthnasol i fusnesau, wrth ddisgwyl am brosiect llawn ar atebolrwydd corfforaethol..

Byddai gennymddiddordeb mewn clywed a fyddai'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn croesawu prosiect llawn ar atebolrwydd corfforaethol, i ystyried a ddylai'r cwestiwn o atebolrwydd symud i ffwrdd o'r athrawiaeth adnabod i ffocysu ar fodelau eraill o ddwyn corfforaethau i gyfrif, megis, er enghraifft, ar sail niwed yn codi o ddiwylliant beius corfforaethol. . Gallai prosiect o'r fath hefyd gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau diweddar a rhai a ddisgwylir yn y dyfodol fel cytundebau erlyn a ohirir.